



**GWOBRAU YMCHWIL  
GYMDEITHASOL CYMRU**

**WALES SOCIAL  
RESEARCH AWARDS**

## TELERAU AC AMODAU

1. Mae Gwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru yn cael eu rhedeg gan y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol ac mae'r telerau a'r amodau hyn yn rheoli'r prosesau enwebu a gwobrwyo.
  2. Mae'r broses enwebu ar agor o 24ain Awst 2017 tan 25ain Medi 2017.
  3. Mae'n rhaid i geisiadau gael eu gwneud gan enwebwr (yr "Enwebwr") ar ran unigolyn neu grŵp arall. Ni chaniateir i unigolion na grwpiau enwebu eu hunain.
  4. Mae'r Wobr Cyflawniad Arbennig a Gwobr Ymchwilydd Gyrfya Gynnar y Flwyddyn ar agor i unigolion yn unig.
  5. Mae'r Wobr Effaith Ymchwil a'r Wobr Arloesi Ymchwil ar agor i unigolion a grwpiau.
  6. Nid oes cyfyngiad ar y nifer o enwebiadau y gall unigolyn eu gwneud.
  7. Ni chaiff aelodau o banel beirniadu Gwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru na'r panel mewnlol a fydd yn llunio'r rhestr fer wneud enwebiadau.
  8. Rhaid i enwebwyr fod dros 18 mlwydd oed.
  9. Gellir gwneud enwebiadau yn y ffyrdd canlynol:
    - a. ar-lein yn <http://the-sra.org.uk/home/sra-cymru/>
    - b. e-bostio ffurflen enwebu wedi'i chwblhau i: [wsra@sra.org.uk](mailto:wsra@sra.org.uk)
- Ni fydd enwebiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn gymwys.**
10. Bydd ffurflenni enwebu yn cael eu barnu ar y wybodaeth a ddarparwyd a'u cyfraniad at y meini prawf categori yn unig.
  11. Dylai'r holl gyflawniadau gwmpasu'r cyfnod 2012-2017, ac eithrio'r Wobr Cyflawniad Arbennig.
  12. Mae'r Wobr Cyflawniad Arbennig yn rhoi ystyriaeth i gyflawniadau drwy gydol gyrfya unigolyn.
  13. Mae Gwobr Ymchwilydd Gyrfya Gynnar y Flwyddyn ar gyfer unigolion sydd â llai na 5 mlynedd o brofiad ymchwil. Nid yw hyn yn cynnwys amser a dreuliyd ar astudiaethau addysgol.
  14. Gall unigolion neu grwpiau sy'n cael eu henwebu fod yn:
    - a. byw yng Nghymru, neu
    - b. byw yn rhywle arall ond eu gwaith ymchwil yn gysylltiedig â Chymru
  15. Mae angen llenwi ffurflenni enwebu - gan gynnwys gwybodaeth bersonol - yn llawn.
  16. Gellir cyflwyno enwebiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
  17. Bydd rhestr fer yn cael ei llunio ar gyfer y gwobrau canlynol:
    - a. Gwobr Cyflawniad Arbennig
    - b. Gwobr Ymchwilydd Gyrfya Gynnar y Flwyddyn (llai na 5 mlynedd o brofiad ymchwil. Nid yw hyn yn cynnwys amser a dreuliyd ar astudiaethau addysgol)
    - c. Gwobr Effaith Ymchwil
    - d. Gwobr Arloesi Ymchwil
  18. Bydd panel beirniadu Gwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru yn dewis tri enwebiad ar gyfer pob categori.
  19. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi ar noson y seremoni wobrwyo.
  20. Bydd yr holl fanylion enwebu yn cael eu gwirio. Bydd enwebiadau yn bwrw ymlaen oni bai ei bod yn dod i'r amlwg bod manylion enwebiadau yn feithiol anghywir neu fod pryderon disgyblu yn cael eu codi.
  21. Disgwylir i'r enwebeion sydd ar y rhestr fer fynychu'r seremoni wobrwyo ar 7fed Rhagfyr 2017. Yr enwebeion fydd yn gyfrifol am drefniadau a chostau teithio a llety eu hunain a'u gwesteion a ganiateir.
  22. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn y seremoni wobrwyo.
  23. Mae penderfyniad y panel yn derfynol. Ni fyddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â'r Gwobrau.
  24. Bydd disgwyl i'r enwebeion gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd ynghylch y gwobrau os oes angen.
  25. Mae Gwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl i:
    - a. Amrywio'r amseroedd agor a chau ar gyfer gwneud enwebiadau ac amrywio dyddiad cyhoeddi'r gwobrau;
    - b. Anghymwysu unrhyw enwebai sy'n torri'r rheolau, y telerau a'r amodau hyn, neu sy'n methu â bodloni'r disgrifiad o'r categori neu sydd wedi ymddwyn yn dwyllodrus neu'n gywilyddus mewn unrhyw ffordd;
    - c. Peidio â gwobrwyo os nad yw'r ansawdd o'r safon ofynnol; a
    - d. Chanslo neu amrywio'r gwobrau neu unrhyw o'r prosesau neu'r meini prawf dethol, ar unrhyw adeg, os bydd yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu os bydd amgylchiadau sydd y tu allan i'w rheolaeth yn codi.
  26. Ni all Gwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant technegol, gamweithio neu unrhyw broblem arall a allai arwain at enwebiad ddim yn cael ei gofrestru'n briodol.
  27. Bydd Gwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru ond yn defnyddio gwybodaeth bersonol yr unigolyn at ddibenion gweinyddu'r gwobrau hyn ac eithrio fel yr amlinellwyd yn y telerau a'r amodau hyn, ni fydd yn eu cyhoeddi nac yn eu rhoi i unrhyw un heb ganiatâd yr unigolyn.
  28. Mae'r Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol yn gyfrifol am gasglu a phrosesu gwybodaeth bersonol ar ran Gwobrau Ymchwil Gymdeithasol Cymru fel rhan o'r broses enwebu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.
  29. Drwy gyflwyno enwebiad, mae'r enwebwr yn ardstio ei fod ef / hi yn deall ac yn derbyn y telerau a'r amodau.

**Y dyddiad cau ar gyfer enwebu yw 25eg Medi 2017, a bydd y Seremoni Wobrwyo yn cael ei chynnal yn Bae Caerdydd ar 7fed Rhagfyr 2017.**

I enwebu, ewch i:  
[www.the-sra.org.uk/home/sra-cymru](http://www.the-sra.org.uk/home/sra-cymru)